



Ymateb ymgynghori

Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig: Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd

Manylion ymgynghori

Teitl ymgynghori: Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig:
Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd

Ffynhonnell ymgynghori: Senedd Cymru

Dyddiad: 31 Awst 2021

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â

Ruth Coombs

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Bloc 1, Cainc D, Adeiladau Llywodraeth, Heol Santes Agnes,

Caerdydd, CF14 4YJ

Wales@equalityhumanrights.com

Am y Comisiwn

Corff cydraddoldeb cenedlaethol Prydain Fawr yw'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ('y Comisiwn') a chafodd ei ddyfarnu'n Sefydliad Hawliau Dynol Cenedlaethol 'Statws A' (NHRI) gan y Cenhedloedd Unedig.

Ein swydd yw helpu gwneud Prydain yn decach. Gwnawn hyn drwy ddiogelu a gorfodi'r cyfreithiau sydd yn gwarchod hawliau pobl i degwch, urddas a pharch. Defnyddiwn ein pwerau unigryw i herio gwahaniaethu, hybu cyfle cyfartal ac amddiffyn hawliau dynol. Gweithiwn gyda sefydliadau ac unigolion eraill i gyflawni'n nodau, ond rydym yn fodlon cymryd camau garw yn erbyn y rheiny sydd yn cam-drin hawliau pobl eraill.

Rhoddwyd pwerau i'r Comisiwn i gynghori Llywodraethau a Seneddau ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban ar oblygiadau cydraddoldeb a hawliau dynol deddfwriaeth a pholisi. Gallwn hefyd gyhoeddi gwybodaeth neu ddarparu cyngor, ar unrhyw fater sydd yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. Rydym yma i gynnig ein cyngor arbenigol i ategu gwaith y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig i sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol yn ganolog i'r Chweched Senedd.

Cwestiynau ymgynghori

Beth yn eich barn chi dylai blaenoriaethau strategol y Pwyllgor fod dros y chwe mis nesaf?

Ymchwiliad y CCHD i anghydraddoldeb hiliol mewn gweithleoedd iechyd a gofal cymdeithasol

Yn yr hydref bydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD) yn cyhoeddi'n hadroddiad ymchwiliad Prydain Fawr i anghydraddoldeb hiliol mewn gweithleoedd iechyd a gofal cymdeithasol. Ceir y cylch gorchwyl fan'ma.

Bydd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill yng Nghymru a bydd yn helpu llywio Cynllun Cydraddoldeb Hil Llywodraeth Cymru.

Mae'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar brofiadau pobl lleiafrif ethnig yn gweithio ar y llinell flaen mewn rolau is eu cyflog yn enwedig yn ystod y pandemig. Bydd argymhellion yn adlewyrchu materion yn amrywio o driniaeth wahanol, ymwybyddiaeth o hawliau, llais cyflogai, cyflogaeth ansicr is ei chyflog, diffyg data a goruchwyliaeth a phroblemau strwythurol sydd yn bodoli o fewn gweithleoedd iechyd a gofal cymdeithasol ac yn cyfrannu at y deilliannau salach a brofir gan weithwyr lleiafrif ethnig. Efallai bydd y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig yn dymuno archwilio ymateb Llywodraeth Cymru ac eraill i ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad a'r camau a gymerir i fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd neu gynnal ei gwaith ei hunan yn y maes hwn.

Beth yn eich barn chi dylai nodau a blaenoriaethau hir dymor y Pwyllgor fod ar gyfer tymor y chweched Senedd?

1. Cenhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi Llywodraeth Cymru.

Dengys adroddiad y Comisiwn "Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol" sut mae'r pandemig wedi dinoethi, dwysau a dyfnhau anghydraddoldebau sydd eisoes yn bodoli.

https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/equality_and_human_rights_commission_how_coronavirus_has_affected_equality_and_human_rights_2020.pdf

Dengys tystiolaeth effaith anghymesur ar rai pobl. Yng nghyd-destun y strategaeth ailadeiladu economaidd ar gyfer Cymru rydym yn benodol yn amlygu'r effaith anghyfartal ar leiafrifoedd ethnig, pobl anabl, pobl ifanc, menywod a phobl yn profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Wrth i ni godi o'r argyfwng hwn, mae'n hanfodol bod cydraddoldeb a hawliau dynol yn ganolog i benderfyniadau fel bo'r ymatebion iddynt yn effeithiol.

Wrth i ni symud i adferiad a dechrau ailadeiladu, bydd yn bwysig bod y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig yn craffu Llywodraeth Cymru i sicrhau bod blaenoriaeth a ffocws yn cael eu rhoi ar gyflenwi deilliannau cydraddoldeb allweddol. Bydd yn bwysig i sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol yn ganolog i'r Genhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi a bod ymrwymadau Llywodraeth Cymru o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cael eu cyflawni. Er enghraifft i sicrhau bod Llywodraeth Cymru wrth lunio a rhoi'r strategaeth ailadeiladu ar waith yn rhoi sylw dyledus i:

1. ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan y ddeddf
2. hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sydd yn rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheini nad ydynt
3. meithrin perthynas dda rhwng pobl sydd yn rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheini nad ydynt.

Wrth wneud hynny, bydd angen i Lywodraeth Cymru gynnal a chyhoeddi asesiadau effaith amserol ar gydraddoldeb wrth gymryd y gwaith hwn yn ei flaen. Gallai hyn fod yn faes y dymuna'r Pwyllgor i gynnwys yn ei raglen craffu.

Efallai bydd y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig yn dymuno craffu a oes strwythur atebolrwydd traws lywodraeth gadarn ac adnoddau'n bod ar gyfer cyflenwi i sicrhau gweithrediad llwyddiannus ac a oes cynllun gweithredu uchelgeisiol yn bod ar gydraddoldeb a hawliau dynol i fynd i'r afael â'r risg gwirioneddol iawn o anghydraddoldebau'n dyfnhau ac yn caledu'n bellach y gwahaniaethu a'r anfantais a brofir gan lawer yng Nghymru.

2. Cyflogaeth ansicr isel ei chyflog

Mae niferoedd uchel o bobl yn gweithio mewn cyflogaeth cyflog isel yng Nghymru. Cododd y nifer o gontractau oriau sero yn fwy na thraean yng Nghymru rhwng 2018 - 2019, sydd yn gyfwerth i 3.4% o'r bobl sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru. Canfu'r New Economics Foundation fod 17% o weithwyr yng Nghymru wedi'u cyflogi mewn gwaith cyflog isel.

Datgelodd y pandemig coronafeirws diffyg hawliau cyflogaeth sylfaenol megis tâl salwch sydd yn golygu nad oes dewis gan lawer o weithwyr economi gig neu bobl ar gontractau oriau sero ond i barhau gweithio. Cyflog isel sydd yn bennaf i'r math hwn o waith ansicr gyda gorgynrychioliad o weithwyr ifanc, a lleiafrifoedd ethnig.

Efallai bydd y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig yn dymuno blaenoriaethu craffu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru ac eraill yn ei wneud i fynd i'r afael â chyflogaeth ansicr cyflog isel.

3. Gweithio o bell a gweithio hyblyg

Oherwydd mesurau cadw pellter cymdeithasol bu rhaid i lawer o gyflogwyr roi arferion gweithio hyblyg ar waith er mwyn goroesi, ac mae hyn wedi arddangos ei fod yn bosibl, ac o fudd i gyflogwyr a chyflogeion fel ei gilydd. Er y ffaith bod gweithio gartref wedi helpu llawer i wella cynhyrchiant drwy roi fwy o hyblygrwydd i'r rheiny sydd yn gweithio gartref, mae pryder y bydd cyflogwyr yn dychwelyd i'r arferion gweithio anhyblyg blaenorol.

Mae nod Llywodraeth Cymru bod oddeutu 30% o'r gweithlu'n gweithio o bell ar sail reolaidd i'w groesawu. Fodd bynnag, dylai Llywodraeth Cymru ystyried ei nod gweithio o bell fel rhan o gynigion gweithio hyblyg ehangach. I fanteisio i'r eithaf ar y momentwm yn y maes hwn yn sgil cynnydd arwyddocaol mewn gweithio hyblyg ac o bell ers dechrau'r pandemig, dylai Llywodraeth Cymru annog cyflogwyr yn helaeth i gynnig gweithio hyblyg i gynifer o gyflogeion ag sy'n ymarferol rhesymol i wneud hynny.

Efallai bydd y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig yn dymuno archwilio cynnydd Llywodraeth Cymru tuag at ei nod ac wrth wneud hynny sicrhau bod unrhyw effeithiau anghymesur a nodir yn yr EIA wrth eu cyhoeddi yn cael eu lliniaru a'u taclo i sicrhau bod y polisi yn gynhwysol ac yn bodloni nodau'r PSED.

Efallai bydd y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig yn dymuno hefyd i archwilio sut mae Llywodraeth Cymru a chyflogwyr yng Nghymru yn hyrwyddo gweithio hyblyg i gynnal y momentwm a enillwyd yn ystod y pandemig ac osgoi unrhyw atchweliad i arferion gweithio anhyblyg cyn pandemig.

4. Adroddiad y Pwyllgor Economi, Isadeiledd a Sgiliau ar adferiad hir dymor o COVID-19 (Mawrth 2021)

Gwnaeth yr adroddiad hwn nifer o argymhellion mewn perthynas â gwaith teg, y contract economaidd ac adferiad i bawb gan gynnwys: gwneud i fuddsoddiadau weithio i bawb, cefnogi pobl o leiafrifoedd ethnig a phobl anabl drwy adferiad, cydraddoldeb rhywedd wrth adfer a diweithdra'r ieuenctid.

Efallai bydd y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig yn dymuno craffu ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr adroddiad hwn ac i archwilio cynnydd Llywodraeth Cymru wrth osod gwaith teg ar draws economi Cymru.

Ffynonellau eraill o dystiolaeth y gallai'r Pwyllgor ddymuno'u hystyried

Traciwr Hawliau Dynol

Ein traciwr hawliau dynol yw un o declynnau ar-lein cyntaf y byd ar gyfer monitro cydymffurfiaeth hawliau dynol. Teclyn ar-lein chwiliadwy yw i olrhain pa mor dda mae Llywodraethau Cymru a'r DU yn rhoi eu dyletswyddau hawliau dynol ar waith ac mae'n cynnwys yr holl argymhellion diweddaraf a wnaed i'r DU gan gyrrff cytundebau'r CU a'r Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol (UPR). Rydym am i'r traciwr hawliau dynol godi ymwybyddiaeth o ddyletswyddau hawliau dynol y DU, i'ch helpu monitro pa mor dda maent yn cael eu rhoi ar waith, ac i'ch cefnogi wrth ddal y llywodraeth i gyfrif.

Gallwch ddefnyddio'r traciwr i:

- Adolygu'r cynnydd mae Llywodraethau Cymru a'r DU wedi'u gwneud tuag at gyflawni'u rhwymedigaethau hawliau dynol rhyngwladol.
- Chwilio yn ôl y DU a Chymru fel y gallwch weld pa lywodraeth sydd yn gyfrifol dros roi'r argymhellion ar waith.
- Canfod beth a ddywedodd y CU am fater hawliau dynol penodol (megis addysg, safonau byw neu waith) neu grŵp poblogaeth (megis pobl anabl neu blant) yn y DU.
- Dod o hyd i dudalennau at y diben ar bob un o gytundebau hawliau dynol y CU mae'r DU wedi cytuno i'w ddilyn, ac ar gynnydd proses yr UPR.

A yw Cymru'n Decach?

A yw Cymru'n Decach? yw'r adolygiad mwyaf cynhwysfawr o sut mae Cymru'n cyflawni ar gydraddoldeb a hawliau dynol ar draws pob maes bywyd, gan gynnwys addysg, gwaith, safonau byw, iechyd, cyfiawnder a diogelwch a chyfranogiad mewn cymdeithas.

Dyma'n hatodiad Cymreig i'n hadroddiad ar gynnydd cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, [A yw Prydain yn Decach?](#)

Rydym hefyd yn ddiweddar wedi llunio adroddiad gwaith pellach "[Sut mae coronfeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol](#)" sydd yn crynhoi tystiolaeth i'n helpu deall effeithiau'r pandemig coronafeirws (COVID-19) ar grwpiau gwahanol mewn cymdeithas.